WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – **Cyngor Sir Ddinbych**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 809A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Anthony Veal, Michelle Phoenix, Gareth Evans a thîm archwilio Cyngor Sir Ddinbych.

# Cynnwys

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r casgliadau ar gyfer archwiliad 2017-18. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Statws yr archwiliad 4

Adroddiad archwilio arfaethedig 4

Materion pwysig sy'n deillio o'r archwiliad 6

Annibyniaeth a gwrthrychedd 7

Y terfynau amser ar gyfer datganiadau ariannol ac archwilio yn y dyfodol 7

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol 9

Atodiad 2 – adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych 13

Atodiad 3 – crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol atynt 16

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

3 Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor yw £3.537 miliwn ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio, a £3.537 miliwn ar gyfer balansau eraill. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.

5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2017-18, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

6 Rydym yn hynod ddiolchgar i swyddogion y Cyngor am eu cymorth yn ystod yr archwiliad.

## Statws yr archwiliad

7 Daeth y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 i law ar 15 Mehefin, bythefnos cyn y terfyn amser y cytunwyd arno, sef 30 Mehefin 2018. Rydym wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth erbyn hyn ond mae nifer fach o weithdrefnau archwilio i'w rhoi ar waith o hyd, gan gynnwys ein hadolygiad terfynol o'n gwaith archwilio.

8 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda swyddogion y Cyngor, gan gynnwys y Prif Gyfrifydd a'r Pennaeth Cyllid.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

9 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

10 Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

# Materion pwysig sy'n deillio o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

11 Amlinellwn isod y camddatganiadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd â'r rheolwyr ond sy'n dal i fod heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os penderfynwch beidio â chywiro'r camddatganiadau, gofynnwn i chi nodi'r rhesymau dros hynny. Mae'r camddatganiadau yn ymwneud â thriniaethau a datgeliadau cyfrifyddu o fewn Eiddo, Offer a Chyfarpar (Nodyn 14). Nid yw'r camddatganiadau yn effeithio ar Gronfa Gyffredinol y Cyngor.

Mae Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi'i danddatgan £135,176 o ganlyniad i'r camddatganiadau canlynol:

- mae ased wedi cael ei ddileu yn anghywir o'r pennawd Tir ac Adeiladau Eraill, sydd wedi arwain at danddatganiad o £82,162 o fewn Tir ac Adeiladau Eraill.
- mae ased sy'n cynnwys tir ac adeiladau wedi cael ei ailbrisio yn ystod y flwyddyn, ond nid yw'r gwerth hwn wedi'i ddiweddaru yn y gofrestr asedau sefydlog na'r cyfrifon. Mae'r pennawd Tir ac Adeiladau Eraill wedi'i danddatgan £14,008.
- mae ased o fewn Asedau a Ddelir i'w Gwerthu wedi'i ailbrisio'n anghywir i ddim ac mae'r golled yn sgil hynny wedi'i phriodoli i Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dylai'r ased fod wedi cael ei drosglwyddo o Asedau a Ddelir i'w Gwerthu i Asedau Dros Ben. Mae Asedau a Ddelir i'w Gwerthu wedi'i danddatgan £39,000.

Nodwyd camddosbarthiadau eraill:

- yn y gorffennol, roedd asedau a ddaliwyd mewn ymddiriedolaeth gan y Cyngor, ond nad oeddent yn eiddo i'r Cyngor, wedi'u cynnwys yn anghywir ar fantolen yr Awdurdod fel asedau anghyfredol o fewn Tir ac Adeiladau Eraill. Nodwyd y gwall hwn yn 2017-18 a chyfrifwyd amdano'n anghywir fel colled ailbrisio yn lle ei drin fel dadgydnabyddiaeth o'r asedau. Mae hyn wedi arwain at gamddatganiad dosbarthu gwerth £98,685 yn Nodyn 14 o 'Lleihad mewn Gwerth a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau' i 'Dadgydnabyddiaeth Arall'.
- cafodd gwarediad blwyddyn flaenorol, nas cofnodwyd yn flaenorol yn y gofrestr asedau sefydlog, ei drin yn anghywir fel colled ailbrisio. Mae gwariant ar ddarparu gwasanaethau wedi'i orddatgan £21,800 tra bod Nodyn 9 'Gwariant Gweithredu Arall': Colled ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu a gwaredu asedau anghyfredol wedi'i danddatgan £60,000.
- mae eiddo, offer a chyfarpar wedi'i orddatgan £447,000 o werth net ac mae Asedau a Ddelir i'w Gwerthu wedi'i danddatgan £450,000, gan gynnwys enillion

ailbrisio o £3,000, ar ôl i ased sydd ar werth ar hyn o bryd gael ei gynnwys o dan asedau gweithredol mewn camgymeriad.

- mae Cost Gros a Dibrisiant Cronedig Gros Asedau Dros Ben wedi'u gorddatgan £192,500. Er bod gwerth llyfr net yr ased wedi'i ddatgan yn gywir, dylid cynnwys y swm gros cywir yn y Nodyn Eiddo, Offer a Chyfarpar.

## Camddatganiadau a gywirwyd

12 Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

## Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

13 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall.
  Daethom i'r casgliad fod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.
- **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad**. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith.
- **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Mae un mater arall sy'n bwysig wrth oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdano:**

  Cofrestr asedau sefydlog - mae'r Cyngor yn parhau i gadw taenlenni cymhleth i ategu'r asedau sefydlog a ddatgelir yn y datganiadau ariannol. Rydym wedi eich hysbysu yn ystod y tair blynedd diwethaf, er bod y taenlenni hyn yn cael eu cadw'n dda a'u bod yn ddefnyddiol wrth baratoi'r cyfrifon, fod gennym bryderon am allu'r system i gefnogi proses symlach i gau cyfrifon, yn enwedig hwylustod gwaith i roi cyfrif am ailbrisiadau.

  Mae Atodiad 3 yn nodi diwygiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft ar ôl ein harchwiliad. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain yn ymwneud â chywiriadau a wnaed i'r driniaeth a'r datgeliadau cyfrifyddu ar gyfer Eiddo, Offer a Chyfarpar (PPE).

  Y llynedd, gwnaethom argymell y canlynol:

– dylai'r ymarfer prisio a baratoir gan Brisiwr y Cyngor gael ei gynnal yn gynharach (cyn diwedd y flwyddyn).
– dylai'r Adran Gyllid adolygu'r prisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn rhesymol.
– dylai'r ailbrisiadau fod yn destun archwiliad allanol cynharach (cyn diwedd y flwyddyn, yn ddelfrydol). Un o fanteision arall cwblhau a gwirio'r ymarfer prisio yn gynharach, a ategir gan adolygiad archwilio allanol cynharach, yw y bydd hyn yn cefnogi trefniadau i gau'r datganiadau ariannol yn gynharach, a fydd yn dechrau effeithio ar gyfrifon 2018-19 (gweler paragraffau 17 i 20 isod).

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â'r uchod, mae angen gwneud rhagor o welliannau o hyd er mwyn sicrhau bod symudiadau a phrisiadau PPE yn cael eu cofnodi'n gywir yn y cyfrifon drafft. Bydd hyn yn helpu i leihau'r amser ychwanegol y mae'r tîm archwilio yn ei dreulio ar yr agwedd hon. Mae hefyd yn golygu na fydd angen i swyddogion dreulio cymaint o amser yn cywiro'r datganiadau ariannol am unrhyw addasiadau archwilio.

- **Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

# Annibyniaeth a gwrthrychedd

14 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth. Gallwn gadarnhau ac eithrio un aelod o staff, nad oes unrhyw fygythiadau hysbys i annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru nac annibyniaeth staff neu gontractwyr sy'n gweithio ar ei ran.

15 O ran yr eithriad a nodir uchod, mae cysylltiad rhwng un aelod o'r tîm archwilio ac aelod o staff y Cyngor. Rydym, felly, wedi cymryd camau ychwanegol i ddiogelu ein hannibyniaeth a'n gwrthrychedd.

16 Felly, rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu.

# Y terfynau amser ar gyfer datganiadau ariannol ac archwilio yn y dyfodol

17 O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018[1], yn y dyfodol bydd yn ofynnol i'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol fodloni terfynau amser statudol cynharach. O dan y rheoliadau diwygiedig bydd y terfynau amser newydd yn newid

[1] www.legislation.gov.uk/wsi/2018/91/contents/made

fesul cam, gyda'r newid olaf yn weithredol o 2020-21. Mae Arddangosyn 1 yn nodi'r dyddiadau newydd.

Arddangosyn 1: newidiadau a gyflwynwyd gan y rheoliadau diwygiedig

| Datganiadau ariannol blynyddol | Datganiadau ariannol a lofnodwyd gan y swyddog cyllid cyfrifol (Swyddog Adran 151) | Datganiadau ariannol a gymeradwywyd gan y Cyngor ac a gyhoeddwyd (gyda'r dystysgrif archwilio wedi'i llofnodi neu esboniad o pam nad yw ar gael) |
|---|---|---|
| 2017-18 | 30 Mehefin 2018 | 30 Medi 2018 |
| 2018-19 | 15 Mehefin 2019 | 15 Medi 2019 |
| 2019-20 | 15 Mehefin 2020 | 15 Medi 2020 |
| 2020-21 ac ar ôl hynny | 31 Mai 2021 | 31 Gorffennaf 2021 |

18 Ar gyfer datganiadau ariannol 2017-18, mae'r rheolwyr wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran paratoi datganiadau ariannol drafft y Cyngor yn gynharach. Ar ôl cyflwyno'r datganiadau i'w harchwilio, roedd swyddogion y Cyngor yn bresennol ac ar gael, ac roeddent wedi ymgysylltu â ni mewn ffordd ymatebol a gwybodus. Roedd y priodweddau hyn yn hollbwysig er mwyn ein galluogi i gwblhau'r rhan fwyaf o'n prif brofion cyn diwedd mis Awst.

19 Eleni cadwodd y rheolwyr y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (er mwyn ystyried a chymeradwyo'r datganiadau ariannol archwiliedig) ym mis Medi 2018, am ei bod yn bosibl na fyddai'r gwaith o baratoi nac archwilio'r datganiadau ariannol wedi bodloni'r dyddiadau targed cynharach a bennwyd. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y terfynau amser diwygiedig a nodir uchod, mae angen i'r Cyngor ystyried amseriadau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer cymeradwyo datganiadau ariannol 2018-19.

20 Yn ystod yr hydref, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion er mwyn sicrhau bod gwelliannau pellach yn cael eu gwneud i'r broses o baratoi ac archwilio datganiadau ariannol 2018-19. Agwedd allweddol ar y gwelliannau hyn fydd cyflawni mwy o'n gwaith archwilio yn gynharach, fel ei fod, lle bynnag y bo modd, wedi'i gwblhau cyn i ni gael y datganiadau ariannol drafft.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Cyngor Sir Ddinbych

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Cathedral Road
Caerdydd
CF11 9LJ

26 Medi 2018

### Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2017-18

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r cod ymarfer ar gyfrifyddu awdurdodau lleol yn y DU; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny; a
- chynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ddinbych ac sy'n ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiadau ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a gyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

- mae ased wedi cael ei ddileu yn anghywir o'r pennawd Tir ac Adeiladau Eraill, sydd wedi arwain at danddatganiad o £82,162 o fewn Tir ac Adeiladau Eraill.
- Mae ased sy'n cynnwys tir ac adeiladau wedi cael ei ailbrisio yn ystod y flwyddyn, ond nid yw'r gwerth hwn wedi'i ddiweddaru yn y gofrestr asedau sefydlog na'r cyfrifon. Mae'r pennawd Tir ac Adeiladau Eraill wedi'i danddatgan £14,008.
- mae ased o fewn Asedau a Ddelir i'w Gwerthu wedi'i ailbrisio'n anghywir i ddim ac mae'r golled yn sgil hynny wedi'i phriodoli i Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dylai'r ased fod wedi cael ei drosglwyddo o Asedau a Ddelir i'w Gwerthu i Asedau Dros Ben. Mae Asedau a Ddelir i'w Gwerthu wedi'i danddatgan £39,000.
- yn y gorffennol, roedd asedau a ddaliwyd mewn ymddiriedolaeth gan y Cyngor, ond nad oeddent yn eiddo i'r Cyngor, wedi'u cynnwys yn anghywir ar fantolen yr Awdurdod fel asedau anghyfredol o fewn Tir ac Adeiladau Eraill. Nodwyd y gwall hwn yn 2017/18 a chyfrifwyd amdano'n anghywir fel colled ailbrisio yn lle ei drin fel dadgydnabyddiaeth o'r asedau. Mae hyn wedi arwain at gamddatganiad dosbarthu gwerth £98,685 yn Nodyn 14 o 'Lleihad mewn Gwerth a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau' i 'Dadgydnabyddiaeth Arall'.
- Cafodd gwarediad blwyddyn flaenorol, nas cofnodwyd yn flaenorol yn y gofrestr asedau sefydlog, ei drin yn anghywir fel colled ailbrisio. Mae gwariant ar ddarparu gwasanaethau wedi'i orddatgan £21,800 tra bod Nodyn 9 'Gwariant Gweithredu Arall': Colled ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu a gwaredu asedau anghyfredol wedi'i danddatgan £60,000.
- mae eiddo, offer a chyfarpar wedi'i orddatgan £447,000 o werth net ac mae Asedau a Ddelir i'w Gwerthu wedi'i danddatgan £450,000, gan gynnwys enillion ailbrisio o £3,000, ar ôl i ased sydd ar werth ar hyn o bryd gael ei gynnwys o dan asedau gweithredol mewn camgymeriad.
- mae Cost Gros a Dibrisiant Cronedig Gros Asedau Dros Ben wedi'u gorddatgan £192,500. Er bod gwerth llyfr net yr ased wedi'i ddatgan yn gywir, dylid cynnwys y swm gros cywir yn y Nodyn Eiddo, Offer a Chyfarpar.

## Sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Gwnaethom gymeradwyo'r datganiadau ariannol ar 26 Medi 2018.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Richard Weigh<br>Swyddog A151 | Y Cynghorydd Barry Mellor |
| Dyddiad: 26 Medi 2018 | Dyddiad: 26 Medi 2018 |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych

**Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ddinbych**

**Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

### Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar Gyngor Sir Ddinbych yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu

- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ddinbych i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018; a
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o Gyngor Sir Ddinbych a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ddinbych yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Ariannol, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Cyngor Sir Ddinbych i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
28 Medi 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £1,067,000 | Nodyn 14 Eiddo, Offer a Chyfarpar: Asedau Seilwaith<br>Roedd gwariant ar asedau seilwaith wedi'i ddosbarthu'n anghywir fel Anheddau'r Cyngor a chafodd y gwariant ei leihau'n llawn i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Er mwyn cywiro hyn, mae asedau seilwaith wedi cael eu cynyddu £1,067,000 ac mae'r gwariant o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi'i leihau yn ôl yr un swm<br>Mae'r diwygiad hwn wedi effeithio ar y datganiadau a'r nodiadau canlynol hefyd:<br>• Dadansoddiad o Wariant a Chyllido<br>• Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn<br>• Datganiad Llif Arian Parod (gan gynnwys Nodyn 23)<br>• Nodyn 7 Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl Natur<br>• Nodyn 8 Addasiadau rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau<br>• Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyfrif Refeniw Tai | Datgelu'r asedau'n gywir a sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| | • Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Cyfrif Refeniw Tai<br>• Nodyn 5 y Cyfrif Refeniw Tai | |
| £455,000 | Nodyn 14 Eiddo, Offer a Chyfarpar: Anheddau'r Cyngor.<br>Roedd asedau anweithredol wedi'u cynnwys yn anghywir o fewn Anheddau'r Cyngor. Er mwyn cywiro'r sefyllfa, trosglwyddwyd yr asedau hyn i Asedau Dros Ben a'u lleihau i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (£506,000) a'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn (£36,000).<br>Yn ogystal, roedd asedau TG nad oeddent yn cael eu defnyddio eto wedi'u cynnwys o fewn Anheddau'r Cyngor a'u lleihau'n llawn i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.  Mae'r asedau wedi cael eu symud i Asedau sydd wrthi'n Cael eu Hadeiladu a dilëwyd y lleihad mewn gwerth o'r adran Gwariant o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (£87,000).<br>Mae'r diwygiad hwn wedi effeithio ar y datganiadau a'r nodiadau canlynol hefyd:<br>• Dadansoddiad o Wariant a Chyllido<br>• Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn<br>• Datganiad Llif Arian Parod (gan gynnwys Nodyn 23)<br>• Nodyn 7 Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl Natur | Datgelu'r asedau'n gywir a sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| | • Nodyn 8 Addasiadau rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau<br>• Nodyn 9 Gwariant Gweithredu Arall<br>• Nodyn 22 Cronfeydd Wrth Gefn Na Ellir eu Defnyddio<br>• Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyfrif Refeniw Tai<br>• Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn y Cyfrif Refeniw Tai<br>• Nodyn 5 y Cyfrif Refeniw Tai | |
| £2,248,000 | Nodyn 14 Eiddo, Offer a Chyfarpar: Tir ac Adeiladau Eraill.<br>Roedd prisiadau ar gyfer rhai o'r meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor yn anghywir.<br>Mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar y datganiadau a'r nodiadau canlynol:<br>• Dadansoddiad o Wariant a Chyllido<br>• Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr<br>• Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn<br>• Nodyn 7 Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl Natur<br>• Nodyn 9 Gwariant Gweithredu Arall<br>• Nodyn 22 Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio: Cronfa Ailbrisio wrth Gefn a'r cyfrif Addasiadau Cyfalaf<br>• Nodyn 23 Datganiad Llif Arian Parod | Datgelu'r asedau'n gywir a sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £10,000 | Nodyn 14 Eiddo, Offer a Chyfarpar: Tir ac Adeiladau Eraill.<br>Roedd prisiadau ar gyfer rhai o'r meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor yn anghywir. Tanddatganwyd prisiad un maes parcio £140,000, tanddatganwyd eraill o gyfanswm o £150,000.<br>Mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar y datganiadau a'r nodiadau canlynol:<br>• Dadansoddiad o Wariant a Chyllido<br>• Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr<br>• Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn<br>• Mantolen<br>• Datganiad Llif Arian Parod (gan gynnwys nodyn 23)<br>• Nodyn 7 Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl Natur<br>• Nodyn 8 Addasiadau rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau<br>• Nodyn 9 Gwariant Gweithredu Arall<br>• Nodyn 22 Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio: Cronfa Ailbrisio wrth Gefn a'r cyfrif Addasiadau Cyfalaf | Datgelu'r asedau'n gywir a sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. |
| £303,000 Amrywiol | Nodyn 14 Eiddo, Offer a Chyfarpar<br>Mae addasiadau pellach wedi cael eu gwneud er mwyn rhoi cyfrif cywir am asedau seilwaith, a chyfarpar Asedau Cymunedol gyda chofnodion cyfatebol yn y meysydd canlynol: | Datgelu'r asedau'n gywir a sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| | • Dadansoddiad o Wariant a Chyllido<br>• Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr<br>• Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn<br>• Nodyn 8 Addasiadau rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Ariannu o dan y Rheoliadau<br>• Nodyn 22 Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio: Cronfa Ailbrisio wrth Gefn a'r cyfrif Addasiadau Cyfalaf | |
| £ Amrywiol | Cafodd nifer o fân ddiwygiadau o ran naratif a chyflwyniad a diwygiadau eraill eu gwneud i'r cyfrifon.<br>Y datgeliadau yr effeithiwyd arnynt oedd:<br>• Yr Adroddiad Naratif<br>• Polisïau Cyfrifyddu<br>• Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr<br>• Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn<br>• Mantolen<br>• Datganiad Llif Arian Parod<br>• Nodyn 7 Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl Natur<br>• Nodyn 8 Addasiadau rhwng Seiliau Cyfrifyddu<br>• Nodyn 14 Ymrwymiadau Cyfalaf<br>• Nodyn 15 Offerynnau Ariannol<br>• Nodyn 17 Dyledwyr<br>• Nodyn 19 Credydwyr Byrdymor | Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol, sicrhau cywirdeb y cyflwyniad yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, a gwella neu gywiro datgeliadau naratif. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| | • Nodyn 20 Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd<br>• Nodyn 21 Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio<br>• Nodyn 22 Cronfeydd Wrth Gefn Na Ellir eu Defnyddio<br>• Nodyn 23 Datganiad Llif Arian Parod<br>• Nodyn 29 Incwm Grant<br>• Nodyn 30 Partïon Cysylltiedig<br>• Nodyn 36 Asedau Treftadaeth | |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru